

**YDOL
DYFODOL**

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Manylion a disgrifiad y swydd

Mai 2022

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Manylion a disgrifiad y swydd

Cynnwys

Tudalen

Rhagarweiniad

2

Sut i ymgeisio

3

Disgrifiad Swydd

4

Disgrifiad Person

5

Crynodeb o delerau ac amodau gwaith

6

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Rhagarweiniad

Sefydlwyd Dyfodol i'r Iaith yn 2012 a nod y mudiad yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn rhan ganolog o fywyd Cymru a bod y Gymraeg yn parhau'n fater byw ar yr agenda gwleidyddol. Mae Dyfodol yn gweithredu drwy ddulliau cyfansoddiadol yn unig ac yn dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Cyngorau Sir, y pleidiau gwleidyddol, arweinwyr cyrff cyhoeddus ac eraill i roi'r Gymraeg wrth galon eu polisiau a'u gweithgareddau.

Enghreifftiau o weithgareddau diweddar Dyfodol, o dan arweiniad y Prif Weithredwr presennol, ydi:

- Trafodaethau cynhyrchiol a rheolaidd gyda Gweinidog y Gymraeg a thîm Cymraeg 2050;
- Pwyso am fwy o athrawon a chynorthwywyr sy'n gymwys i arwain y twf yn addysg cyfrwng Cymraeg;
- Gweithio i sicrhau ymateb cadarn i'r argyfwng tai;
- Cyflwyno syniadau newydd ar sefydlu tai gwyliau sy'n sicrhau fod yr holl elw'n mynd tuag at les ac anghenion y gymuned leol;
- Mynnu sefydlu Awdurdod Iaith hyd-braich pwerus i arwain a chydlynu ymateb strategol gref i dwf y Gymraeg; a
- Cyflwyno gweledigaeth newydd ar botensial Canolfannau Iaith i rwydweithio'r Gymraeg yn gymunedol.

Mae ein maniffesto "Troi Dyhead yn Realiti", sy'n crynhoi ein gofynion ar gyfer Senedd Cymru 2021-2026, ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn chwilio am berson sy'n angerddol dros y Gymraeg i arwain gwaith y mudiad a'i gweithgareddau polisi a lobio. Mae'n swydd diddorol ac amrywiol ei natur.

Rydym yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan unigolion sydd â phrofiad ym maes polisi a/neu lobio fyddai'n gallu cydweithio'n agos gydag aelodau'r Bwrdd i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ac i sicrhau fod polisiau cyhoeddus yn ymateb yn briodol i'r dyhead o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Gallai'r swydd fod yn addas i rywun profiadol yn y maes neu berson sy'n awyddus i weithio'n rhan amser tra'n cymryd y cam nesaf yn ei (g)yrfa.

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Sut i ymgeisio

I ymgeisio am y swydd dylid danfon CV a llythyr neu ddatganiad yn crynhoi'r cymwysterau, profiad a nodweddion personol sy'n ymateb i'r disgrifiad swydd a'r disgrifiad person isod. Dylid hefyd ddanfon manylion dau ganolwr, gydag un o'r rhain yn gyflogwr presennol neu ddiweddaraf.

Dylid danfon y cais:

- Unai drwy e-bost i swyddi@dyfodol.net; neu
- Drwy'r post i Penllyn, 25 Ael y Bryn, Caerfyrddin, SA31 2HB

Dyddiad cau – 27 Mehefin 2022

Bwriedir cynnal cyfweiliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 19 Gorffennaf. Os oes unrhyw bryd yn ystod y dyddiadau hyn yn anghyfleus, rhowch wybod tra'n cyflwyno eich cais.

Os ydych yn dymuno cael sgwrs anffurfiol ynglyn â'r swydd, cysylltwch â ruth@dyfodol.net i drefnu.

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Disgrifiad Swydd

Atebolrwydd a chyd-weithio

- Bydd y Prif Weithredwr yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Dyfodol
- Bydd yn cyd-weithio'n agos gyda'r Cadeirydd, y Trysorydd a'r Swyddog Staffio, ac yn cyd-weithio gydag aelodau eraill y Bwrdd

Prif bwrpas y rôl

- Gweithredu Gweledigaeth Dyfodol i'r Iaith
- Arwain a chydlynu gweithgareddau lobio Dyfodol
- Sicrhau hyfywedd y mudiad
- Sicrhau gweinyddiaeth a threfn effeithiol

Prif ddyletswyddau

- Cynnal trafodaethau polisi gyda Llywodraeth Cymru, gwleidyddon, cyrff cyhoeddus a mudiadau cenedlaethol
- Datblygu Polisiâu Dyfodol mewn gwahanol feysydd
- Ymateb i ymgynghoriadau
- Cyfathrebu â'r Bwrdd ac aelodau Dyfodol yn effeithiol
- Paratoi deunydd i'r cyfryngau i hyrwyddo gweledigaeth y mudiad ac i hyrwyddo Dyfodol
- Cyd-weithio gydag aelodau'r Bwrdd i ddatblygu a gweithredu cynllun i gynyddu'r aelodaeth a chynyddu cyllid y mudiad:
 - Trefnu ymgyrchoedd i gynyddu'r aelodaeth unigol a chorfforaethol (mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr a Bwrdd Cyfarwyddwyr Dyfodol)
 - Trefnu ymgyrchoedd i godi arian (mewn cydweithrediad â'r Prif Weithredwr a Bwrdd Cyfarwyddwyr Dyfodol)
 - Canfod ffynonellau ariannol eraill (e.e. ymddiriedolaethau)
- Sicrhau bod cronfeydd data Dyfodol yn cael eu cynnal a'u diweddarau gan ystyried rheolau cyfredol Rheoli Data
- Sicrhau bod gan Ddyfodol bresenoldeb amlwg ar gyfryngau digidol
- Sicrhau diweddarau'r wefan
- Bod yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd a gweithgareddau amrywiol
- Bod yn gyfrifol am drefnu stondin Dyfodol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mewn digwyddiadau eraill
- Cyflawni dyletswyddau atodol eraill y bernir eu bod yn rhesymol ac yn ymarferol, a gytunir gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Dyfodol

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Disgrifiad Person

Mae Dyfodol i'r Iaith yn chwilio am berson brwdfrydig, dawnus, sydd yn frwd dros y Gymraeg i weithio fel Prif Swyddog y mudiad.

Rydym yn awyddus i benodi unigolyn gyda rhai sgiliau penodol ac yn barod i gynnig hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau hynny a sgiliau newydd mewn meysydd amrywiol.

Gwybodaeth / Sgiliau Hanfodol

- Gwybodaeth eang am y Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus, addysg a chymunedau.
- Gallu i ysbrydoli ac i gynnal trafodaethau gyda chyrrff cyhoeddus, mudiadau ac unigolion.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Sgiliau da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Sgiliau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth da iawn a'r gallu i gyfathrebu'n ddigidol ar sawl llwyfan.

Sgiliau neu brofiad dymunol

- Profiad o ymwneud â chyrrff cyhoeddus lleol a chenedlaethol
- Profiad o drefnu digwyddiadau a gallu gwneud hynny'n drefnus a gyda dychymig a chreadigrwydd.
- Rhywfaint o wybodaeth neu brofiad ym maes marchnata a/neu hyrwyddo.
- Gwybodaeth am bwysigrwydd rheolau cyfreithiol rheoli data (GDPR)
- Gallu cadw a defnyddio bas data.
- Gwybodaeth am, neu brofiad o, dulliau codi arian ar gyfer mudiad.

Sgiliau Personol

- Person sy'n gallu ysbrydoli a chydweithio'n dda ar sawl lefel
- Person trefnus a chreadigol gydag amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau.
- Person sy'n gallu bod yn gyfrifol am bolisiau a phobl
- Person hunan ddisgybledig sydd yn gallu dangos blaengaredd a blaenoriaethu gwaith yn effeithiol.
- Un sy'n gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill fel aelod o dîm bychan yn ogystal â gweithio'n annibynnol.
- Unigolyn sydd yn mwynhau her ac amrywiaeth yn y gwaith.
- Er mwyn llwyddo yn y swydd a mwynhau'r gwaith mae'n allweddol bod y Gymraeg a'i dyfodol yn bwysig i'r ymgeisydd.

Dyfodol i'r Iaith

Prif Weithredwr (Swydd Rhan Amser)

Crynodeb o Delerau ac Amodau Gwaith

- 1. Lleoliad y Swydd:** Bydd y Prif Weithredwyr gweithio o gartref. Disgwylir mynychu rhai cyfarfodydd mewn lleoliadau eraill yn ôl y galw. Gellir darparu swyddfa waith yn Nhalybont, Ceredigion pe dymunir.
- 2. Oriau:** 15-20 awr yr wythnos ar gyfartaledd (i'w drafod a chytuno). Ni fydd yr oriau o angenrhaidd wedi eu rhannu'n gyfartal dros y diwrnodau – ond ar gyfartaledd 15-20 awr yr wythnos (oriau i'w trafod a'u cytuno).

Caniateir hyblygwydd wrth drefnu patrwm oriau gwaith er mwyn gallu ymateb i ofynion y swydd.

Caniateir hawlio Oriau in Lieu am weithio oriau ychwanegol wrth ddilyn trefn bendant a chofnodi ar dempled penodol. Dylid hawlio nôl oriau ychwanegol a weithiwyd o fewn wyth wythnos. Yn yr un modd dylid weithio oriau ychwanegol o fewn wyth wythnos os fydd oriau heb eu cwblhau.

- 3. Cyflog:** £28,000-£33,000 pro rata (yn dibynnu ar brofiad/cymwysterau).
- 4. Gwyliau:** Caniateir 35 diwrnod o wyliau y flwyddyn pro rata (gan gynnwys gwyliau banc)
- 5. Cynllun Pensiwn:**

Bydd y cyflogwr yn cyfrannu swm cyfwerth â 3% o gyflog y Prif Weithredwr naill ai:

- i gynllun pensiwn personol o ddewis y Prif Weithredwr; neu
- i gynllun pensiwn NEST, a bydd disgwyl i'r Prif Weithredwr gyfrannu swm cyfwerth â 5% o'r cyflog i'r cynllun pensiwn hwnnw

Bydd gan y Prif Weithredwr hawl i ddewis eithrio ei hun o'r trefniant hwn.

6. Treuliau

Fe ddigolledir y Prif Weithredwr am gostau teithio a chynhaliaeth, a.y.b. (costau rhesymol ar gyfer cwblhau'r dyletswyddau}. Mae'r graddfeydd teithio yn seiliedig ar raddfeydd Cyllid a Thollau. Treuliau i'w cytuno â Thrysorydd Dyfodol i'r laith ar ôl llenwi ffurflen penodol.